## Cyfraniad y Gwragedd

**Luc 21:1–4; Marc 14:3–9; Ioan 12:1–8; Mathew 26:6–13**

Ar hyd y blynyddoedd bûm yn pwysleisio’r lle pwysig a gaiff y ferch, y fam, y wraig a’r fam-yng-nghyfraith yn nysgeidiaeth a gweinidogaeth Iesu Grist. Y mae tuedd ynom i anghofio’r pwyslais hwn a welir yn amlwg yn Efengyl Luc. Roedd y gwragedd a ddilynodd Iesu ar y bererindod, fel llawer o wragedd eraill ar hyd y canrifoedd, yn cyfleu i’r dim yr hyn a ddisgwyliai Iesu oddi wrth bawb ohonom: ffyddlondeb, teyrngarwch, hunanaberth a gwasanaeth.

Cofiwn am rai o’r cyfraniadau a groniclir yn yr efengylau. Yn gyntaf, dyna ymateb y wraig weddw dlawd a roddodd yn yr offrwm ddwy hatling, sef ffyrling. Cyfrannodd hon o’i phrinder. Ac yn ail, y wraig a ddaeth â’r blwch ennaint i eneinio pen a thraed Iesu. Roedd hon wedi cadw’r ennaint ar gyfer ei gladdedigaeth, ond gwelodd gyfle i’w ddefnyddio tra oedd Iesu ar y ffordd i Jerwsalem. Er gwaethaf protest Jwdas a’r disgyblion, gwelodd Iesu fod y weithred yn ganolog i’w ddysgeidiaeth. Meddai, ‘Yn wir, rwy’n dweud wrthych, pa le bynnag y pregethir yr Efengyl yma yn yr holl fyd, adroddir hefyd yr hyn a wnaeth hon, er cof amdani’.

Yn ôl Ioan, yng nghartref teulu Bethania y gwnaed y weithred hardd, gyda Mair yn tywallt yr ennaint. Ond yn ôl Mathew, sy’n dilyn Marc, eneiniwyd pen Iesu gan wraig nas enwir, a hynny yn nhÿ Simon, y Gwahanglwyfus, ym Methania (Marc 14:3). ‘Gwraig bechadurus’ oedd hi yn ôl Luc, a chyflawnodd y weithred yng nghartref Simon y Pharisead yng Ngalilea (Luc 7:36). Yn ddiweddarach, cysylltwyd y wraig bechadurus gyda’r wraig ym Methania, a’i henwi yn Mair o Fagdala; ond nid oes sail bendant o gwbl i hynny. Yr unig beth a wyddom yw bod gwraig wedi cyflawni cymwynas â Christ pan oedd ef ar ei ffordd i Jerwsalem ac i’r Groes. Yr ydym ar dir diogel wrth ddweud hynny.

***D. Ben Rees***